

KEMEYS a KEMEYS-TYNTE (TEULU), Cefn Mabli, sir Fynwy

Dywedir bod cangen Cefn Mabli o deulu Kemeys yn ddisgynyddion Stephen de Kemeys, perchen tir yn sir Fynwy c. 1234. Cysylltir hwy gyntaf â Chefn Mabli pan briododd DAVID KEMEYS, mab Ievan Kemeys o Began, â Cecil, merch Llewelyn ap Evan ap Llewelyn ap Cynfrig o Gefn Mabli, c. 1450. Dilynwyd hwy gan eu mab LEWIS. Yr etifeddion nesaf oedd JOHN KEMEYS a'i fab DAVID (bu farw 1564?). Bu mab hynaf David, sef EDWARD, yn siryf Morgannwg 1574-5, ond bu farw'n ddiblant. Daeth y stad i nai Edward, sef DAVID mab Rhys Kemeys o gastell Llanvair. Bu David yn siryf Morgannwg, 1616-7. Dilynwyd ef gan ei fab EDWARD, ond ni bu wŷrion i Edward. Aeth y stad felly i Syr NICHOLAS KEMEYS o Lanvair, marchog, mab i'r Rhys o gastell Llanvair a nodwyd uchod. Bu ef yn siryf Mynwy, 1631-2, a Morgannwg, 1638-9. Bu hefyd yn aelod seneddol dros sir Fynwy, 1628-9. Yn 1642 gwnaed ef yn farwnig. Yr oedd yn Frenhinwr mawr, a chymerodd ran flaenllaw yn y Rhyfel Cartrefol. Bu farw tra'n amddiffyn castell Casgwent, 25 Mai 1648. Ei fab, CHARLES KEMEYS, oedd yr ail farwnig. Buasai ef yn efrdydd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, a gwnaed ef yn farchog yn 1643. Cymerodd yntau ran flaenllaw yn y rhyfel, ac ymladdodd dros y brenin yng nghastell Penfro. Ar gwmp y castell, gorfu iddo dalu dirwy o £3,500, ac alltudiwyd ef am ddwy flynedd. Bu farw 1658. Dilynwyd ef gan ei fab CHARLES KEMEYS, a fuasai'n efrdydd yng Ngholeg Wadham, Rhydychen. Bu ef yn aelod seneddol dros sir Fynwy, 1685-7, 1695-8, a thros fwrdeisdref Mynwy, 1690-5. Ymddengys ei enw fel siryf Morgannwg am y cyfnod 18-24 Mawrth 1689. Bu hefyd yn llywodraethwr castell Caerdydd, 1702. Bu farw Rhagfyr 1702. Dilynwyd ef fel 4ydd barwnig gan ei fab, CHARLES KEMEYS, a aned 23 Tachwedd 1688. Yr oedd ef yn siryf Morgannwg, 1712-3, yn aelod seneddol dros sir Fynwy, 1713-5, a thros sir Forgannwg, 1716-34. Bu farw 29 Ionawr 1735, yn ddiblant; ef oedd y barwnig olaf.

JANE KEMEYS (bu farw 1747)

Chwaer Charles Kemeys, y 4ydd barwnig. Yr oedd wedi priodi Syr John Tynte, barwnig (1683-1710), Halswell, Somerset. Bu iddynt dri mab, HALSWELL (1705-1730), JOHN (1707-1740), a CHARLES (1710-1785), ac un ferch, JANE (1708-1741). Bu farw eu wŷrion yn ifanc, ac eithrio JANE (1738-1825), merch y Jane a nodwyd uchod a Ruishe Hassell, swyddog yn y fyddin. Daeth y stad iddi hi. Priododd hi, 19 Chwefror 1765, y cyrnol JOHN JOHNSON o Glaiston, sir Rutland, a chymerodd ef yr enw teuluol KEMEYS-TYNTE. Bu farw 1807.

Yn y 19eg. ganrif trosglwyddwyd y stad o dad i fab hynaf yn ddidor, a dyma'r etifeddion:

CHARLES KEMEYS KEMEYS-TYNTE (1778 - 1860), aelod seneddol

Ganwyd 29 Mai 1778; aelod seneddol dros Bridgwater, 1820-37, cyrnol yn y West Somerset Yeomanry. Priododd ef, 25 Ebrill 1798, Anne, merch y Parch. T. Leyson, ficer Bassaleg, sir Fynwy. Bu farw 22 Tachwedd 1860.

CHARLES JOHN KEMEYS-TYNTE (1800 - 1882), aelod seneddol

Ganwyd 1800; cyrnol yn y Royal Glamorgan Light Infantry; aelod seneddol dros orllewin Somerset, 1832-7, a Bridgwater, 1847-65. Priododd (1), 18 Gorffennaf 1820, Elizabeth, merch Thomas Swinnerton o Butterson Hall, sir Stafford; (2), Vincenia, merch W. Brabazon o Rath House, Louth, 15 Ebrill 1841. Bu farw 16 Medi 1882.

CHARLES KEMEYS KEMEYS-TYNTE (1822 - 1891), ustus heddwch a dirprwy-raglaw

Ganwyd 16 Mawrth 1822; ustus heddwch a dirprwy-raglaw dros sir Fynwy a Somerset; cyrnol yn y Somerset Militia. Priododd (1), 2 Tachwedd 1848, Mary, merch George Frome o Puncnoll, Dorset; (2) 1873, Hannah Lewis; a (3) 1879, Elizabeth, merch Richard Fothergill, aelod seneddol, Dinbych-y-Pysgod. Bu farw 10 Ionawr 1891.

HALSWELL MILBORNE KEMEYS-TYNTE (1852 - 1899), ustus heddwch a dirprwy-raglaw

Ganwyd 1852; ustus heddwch a dirprwy-raglaw dros sir Fynwy, ustus heddwch dros Sir Forgannwg a Somerset. Priododd, 25 Medi 1875, Rosabelle, merch Theobald Walsh o Kildare. Bu farw 18 Chwefror 1899.

CHARLES THEODORE HALSWELL KEMEYS-TYNTE (1876 - 1934), ustus heddwch

Ganwyd 18 Medi 1876. Bu'n ustus heddwch dros sir Fynwy a Somerset. Priododd, 10 Awst 1899, Dorothy, merch y cadfridog Syr Arthur E. A. Ellis. Buasai cysylltiad rhwng cangen o'r teulu a barwniaeth Wharton, ac yn Chwefror 1916 gwnaed Charles Kemeys-Tynte yn 8fed farwn Wharton. Bu farw 4 Mawrth 1934.

Awdur

Griffith Milwyn Griffiths

Ffynonellau

G. T. Clark, *Limbus Patrum Morganiae et Glamorganiae* (1886)

Foster, *Alumni Oxonienses: the members of the University of Oxford*

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895*(Brecknock 1895)

Thomas Nicholas, *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales*(London 1872), cyf.I

Thomas Nicholas, *Annals and Antiquities of the Counties and County Families of Wales*(London 1872), cyf.II

Public Record Office, *List of Sheriffs for England and Wales* â€¦ to A.D. 1831 (1898) (P.R.O.)

Archaeologia Cambrensis, 1883, 114; 1887, 127

John Roland Phillips, *Memoirs of the Civil War in Wales and the Marches, 1642*â€¦1649 (London 1874)

Catalogue of tracts of the Civil War and Commonwealth period relating to Wales and the Borders, National Library of Wales(Aberystwyth 1911)

Burke's Landed Gentry

Burke's â€¦ *Peerage, Baronetage, and Knightage*

Return of Members of Parliament Pt. 1. Parliaments of England, 1213-1702. Pt. 2. Parliaments of Great Britain, 1705-1796. Parliaments of the United Kingdom, 1801-1874.

Parliaments and Conventions of the Estates of Scotland, 1357-1707. Parliaments of Ireland, 1559-1800 (Llundain 1878), 1213-1702

Archifau LIGC: NLW MS 5172F, NLW MS 5178E, NLW MS 5181E, NLW MS 6535A, NLW MS 6546E, NLW MS 6548B, NLW MSS 6587E, 6588C, NLW MS 6594B, NLW MS 6610E, NLW MS 6611E

H. Blackwell, NLW MS 9263A: A Dictionary of Welsh Biography

Darllen Pellach

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20738124](https://www.wikidata.org/wiki/Q20738124)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

[frannu](#)

Arddull APA

x

Griffiths, G. M., (1953). KEMEYS a KEMEYS-TYNTE (TEULU), Cefn Mabli, sir Fynwy. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 10 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-KEME-CEF-1234>

[Cofrestru](#)

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwydian
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government